# ATODLEN 15

## Mesurau arbennig ar gyfer rheoli Pydredd cylch tatws

### Mesurau y caniateir eu gwneud yn ofynnol mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig

**8.** Y drydedd set o fesurau dileu yw—

(a) gwaharddiad ar blannu unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am y flwyddyn dyfu gyntaf—

(i) cloron, planhigion neu wir hadau tatws;

(ii) planhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws; a

(iii) tatws hadyd ardystiedig, oni bai eu bod ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta yn unig, a bod arolygydd wedi ei fodloni bod y risg o blanhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws wedi ei dileu;

(b) gofyniad mai dim ond y tatws a ganlyn y caniateir eu plannu ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn y flwyddyn dyfu ganlynol—

(i) tatws hadyd ardystiedig; a

(ii) tatws hadyd a brofwyd yn swyddogol ar gyfer absenoldeb Pydredd cylch tatws ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol mewn man cynhyrchu nad yw'n fan cynhyrchu halogedig;

(c) gofyniad mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol o datws hadyd ardystiedig y caniateir eu plannu i gynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn ystod o leiaf y drydedd flwyddyn dyfu; a

(d) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad hyd at ddiwedd y drydedd flwyddyn dyfu er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, ac unrhyw blanhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws.